**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**3ydd Chwefror 2014**

**Amcanion Gwella 2014-15**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Darparu crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15; a chynnig cynnwys Cynllun Gwella drafft terfynol ar gyfer 2014-15 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod nesaf ym Mawrth 2014.

## Cyflwyniad

2 Yn Chwefror 2013, cafodd Gweithgor yr Awdurdod ar Gynllunio ar gyfer Gwella amserlen arfaethedig ar gyfer llunio a chyhoeddi Cynllun Gwella yr Awdurdod 2014-15 yn unol â'r cyfarwyddyd statudol.

3 Roedd yr amserlen hon yn cynnwys cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Amcanion Gwella drafft, cyn cymeradwyo'n derfynol y Cynllun Gwella ar gyfer 2014-15 ym Mawrth 2014.

4 Wedi hynny, cymeradwyodd yr Awdurdod dri amcan gwella drafft at ddiben ymgynghori rhwng Medi a Rhagfyr 2014.

5 Dylai'r ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw roi sail i'r Panel Gweithredol wneud argymhelliad ynglŷn â chynnwys Cynllun Gwella drafft 2014-15 i'w gyflwyno i gael cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2014.

6 Dan reoliadau statudol, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei gynlluniau gwella cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl diwedd y mis Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi. Yn ymarferol, dehonglwyd mai ystyr hyn yw diwedd mis Mawrth.

Yr Amcanion Gwella arfaethedig ar gyfer 2014-15

7 Roedd Amcan 1 wedi ei gario drosodd o'r blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân. Yr amcan oedd: "Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi."

8 Roedd Amcan 2 yn ymwneud â dull yr Awdurdod o ariannu'r Gwasanaeth fel yr oedd yn nesáu at ddiwedd y cyfnod o dair blynedd o rewi'r gyllideb. Yr amcan oedd: "Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014/15 i 2016/17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol".

9 Roedd Amcan 3 yn adlewyrchu'r ffaith fod yr Awdurdod yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru, a'r rheini'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir. Yr amcan oedd: "Sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael y lefel orau o wasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli er mwyn cael y gofal tân ac achub gorau posibl yn yr ardal."

## Gwybodaeth

Ymgynghoriad 2013.

10 Cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Amcanion Gwella oedd rhwng Medi 16$^{eg}$ a Rhagfyr 9$^{fed}$ 2013.

11 Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac anfonwyd neges electronig at amrywiaeth o randdeiliaid lleol a chenedlaethol a sefydliadau sy'n bartneriaid inni i roi gwybod ei fod ar gael yno. Gofynnwyd i rai sefydliadau sy'n bartneriaid inni roi'r ymgynghoriad ar gael drwy eu mewnrwydi eu hunain;

darparwyd dolenni iddo drwy gyfryngau cymdeithasu; ymddangosodd erthygl yn y wasg leol; a darparwyd cyflwyniadau i'r awdurdodau cyfansoddol, gyda chyfle i ofyn cwestiynau.

Yr ymateb i'r ymgynghoriad.

12 Daeth wyth ymateb ysgrifenedig i law, gyda phedwar ohonynt yn dod gan gynghorau tref/cymuned, ac un gan bob un o'r canlynol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Diverse Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru.

13 Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu cytundeb cyffredinol â'r tri amcan yr oedd yr Awdurdod yn eu cynnig, ac roedd rhai yn manteisio ar y cyfle yn eu hymateb i ganmol y Gwasanaeth a/neu i bwysleisio gwerth rhai agweddau arbennig ar y gwasanaeth yn eu llygaid hwy.

14 Roedd y geiriau caredig yn cynnwys cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru i waith y gwasanaeth tân ac achub, ac yn cyfeirio at ei gyfraniad arbennig i wella diogelwch y cyhoedd.

15.1 Amcan 1. Roedd un ymateb yn datgan "cefnogaeth lwyr" iddo, ac un arall yn ei 'gefnogi'n llawn".

15.2 Roedd cefnogaeth arbennig i'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref (cyfeiriodd un atynt fel "yr archwiliadau gwych hyn"), ac roedd cydnabyddiaeth i bwysigrwydd atal tanau. Roedd un ymateb yn nodi nad oedd y targed o gynnal 30,000 o archwiliadau o'r fath wedi ei gyrraedd yn 2012/13, ac roedd un arall yn cynnig y dylai'r Awdurdod gyflwyno cynllun ar gyfer ymdrin â diwedd y cyfnod o 10 mlynedd pryd y bydd angen batris neu larymau mwg newydd.

16.1 Amcan 2. Roedd llai o eiriau uniongyrchol o gefnogaeth i'r amcan hwn, ond roedd un yn ystyried bod yr hyn a gynigid yn "rhesymol", ac un arall yn cydnabod "y pwysau cynyddol i wneud arbedion effeithlonrwydd".

16.2 Awgrymodd CBS Wrecsam broses arafach neu oedi yn y broses o roi'r amcanion ar waith, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'w gynlluniau arbedion ei hun.

17 Amcan 3. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r amcan hwn, gyda'r sylwadau'n cynnwys: "mae'n ymddangos yn ymarferol ac yn ddarbodus yn yr hinsawdd presennol", a "bodlon gyda'r cynnig". Roedd CBS Wrecsam yn cefnogi'n arbennig y mathau o newidiadau nad ydynt yn amlwg ar unwaith i'r cyhoedd ond sydd yn amddiffyn gwasanaethau rheng flaen.

18.1 Roedd ymateb Diverse Cymru yn beirniadu'r defnydd o'r term "pobl fregus" ac yn awgrymu defnyddio "pobl sydd angen cefnogaeth" neu "bobl sydd angen eu diogelu".

18.2 Roeddent yn awgrymu: "Pan fo modd, dylai'r gwaith ganolbwyntio ar gyrraedd grwpiau a glywir yn anaml a'r rhai'n sy'n profi gwahaniaethu ac anfantais, yn hytrach na dim ond ar bobl sydd angen cefnogaeth".

18.3 Hwn oedd yr ymateb mwyaf maith a manwl o bell ffordd, ac er ei fod yn cefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i groesgyfeirio rhwng y ffactorau cyfrannol hysbys a'r nodweddion gwarchodedig dan Deddf Cydraddoldeb 2010, roedd yn pwysleisio'r cyfraniad y gallai sefydliadau eraill a chynrychiolwyr grwpiau nodweddion gwarchodedig ei wneud i'r gwaith o gynllunio a dylunio gwasanaethau. Roeddent yn awgrymu symud i fodel o gydgynhyrchu sy'n cynnwys dinasyddion lleol a sefydliadau wrth roi ffurf ar wasanaethau, ac roeddent yn cynnig cynorthwyo gyda'r dasg o ddatblygu rhaglenni gwaith penodol.

19.1 Roedd ymateb yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn pwysleisio'r angen i gynnal lefel yr ymateb i adeiladau treftadaeth a'r bobl sy'n byw ar y safleoedd.

19.2 Roedd yr ymateb hwn yn cyfeirio'n benodol at y polisïau "herio galwadau" sydd wedi cael eu mabwysiadu gan rai awdurdodau tân ac achub yn y DU ac sy'n ymateb lai neu'n peidio ag ymateb i Larymau Mwg Awtomatig. Roeddent yn dymuno cael sicrwydd fod digon o ofal tân a staff priodol hyfforddedig ar gael i ymdrin â digwyddiadau ar safleoedd treftadaeth, nid yn unig tanau ond hefyd sefyllfaoedd megis "llifogydd, arfau heb ffrwydro, tirlithriadau, ayyb.".

20 Awgrymodd Cyngor Tref Dinbych system ddyletswydd wahanol ar gyfer gorsaf dân Dinbych, a'r posibilrwydd o "Adran Ieuenctid" i'r gwasanaeth tân.

21 Gofynodd Cyngor Tref Llandudno i ystyriaeth gael ei rhoi i ymgorffori gwybodaeth mewn adroddiadau ac amcanion ynglŷn â digwyddiadau yr aeth y Peiriannau ALP atynt.

<u>Penderfyniad yr Awdurdod ar ariannu ar gyfer 2014-15</u>

22 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafodd yr Awdurdod wybod am effaith bosibl y setliad cyllid llywodraeth leol yng Nghymru yn 2014-15, a phenderfynodd fis Rhagfyr i rewi'r gyllideb am flwyddyn arall ac i defnyddio cronfeydd untro i danategu'r gyllideb am y flwyddyn honno. Ni ddylai hyn effeithio ar yr Amcan 2 arfaethedig.

**Argymhelliad**

23 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo llunio drafft terfynol o Gynllun Gwella 2014-15, yn seiliedig ar yr un cynigion sydd yn y drafft ymgynghorol ac yn cynnwys esboniadau ychwanegol ynglŷn ag: a) beth a olygir gan 'vulnerable/bregus' wrth gyfeirio at danau yn y cartref; a b) penderfyniad yr Awdurdod ynglŷn â chyllideb 2014-15.

24 Yna, bydd y drafft terfynol o Gynllun Gwella 2014-15 yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2014 ar gyfer cael cymeradwyaeth, ac yna ei gyhoeddi cyn diwedd Mawrth 2014.